

Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant Community Council

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.
E bost: clerc.cyngor.llanfihangel.council@gmail.com Ffôn: 07974795778

3ydd Mawrth 2025

Annwyl Gyfaill

**CYNHELIR CYFARFOD o GYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT
Nos Lun y 10fed o Mawrth 2025 am 7.00pm yn y Ganolfan, Abergynolwyn.**

Nodyn ar gyfer y cyhoedd. Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer.

Noder; Bydd Elin William gyda ni am 7.00pm i roi'r diweddaraf gyda prosiect LLeChi/Lie Ni

Croeso ichwi gysylltu os ydych eisiau gair
Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

CLERC

AGENDA

1. Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.
2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)
3. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gyfarfu ar y 10fed o Chwefror – gweler yn atodol.
4. **Materion yn codi,**
 - a) Materion Priffyrdd /llwybrau – gan gynnwys parcio yn Heol Llanegryn.
 - b) Rheilffordd Talyllyn /Safle treftadaeth a'r prosiect wagen lechi etc– ystyried y gohebiaeth diweddaraf. **Croesawu Elin William atom 7.00yh.**
 - c) Coeden yn difrodi wal (Abergynolwyn)/ a coeden wedi cwmpo ym mynwent Llanfihangel y Pennant. *Gohebiaeth Rhydian Roberts o'r Parc Cenedlaethol wedi ei gylchredeg*

d) Materion angen sylw yn y Cae Chwarae yn dilyn ymweliad y Cynghorwyr/adroddiad ROSPA -**ystyried amcangyfrif gan GL Jones Playgrounds.**

e) Gwaith ym mynwent Y Fedw Abergynolwyn – **gwaith wedi ei gwblhau - anfoneb i law.**

f) Ansawdd dwr/ carthffosiaeth - Abergynolwyn

g) Asedau y Cyngor – derbyn adroddiad y Cynghorwyr

5. Materion Cynllunio

Canllawiau i Gynghorau Cymuned gan Adran Gynllunio y Parc Cenedlaethol

6.Materion Cyllid.

a) Cyfrifon 2023-24 -nodi'r diweddaraf.

b) Anfonebau;

- Cydnabyddiaeth chwarter olaf y Clerc ynghyd a chostau
- Yswiriant y Cyngor 2025-26

(Llwybrau – nodi £300 i law gan Gyngor Gwynedd)

c) Ceisiadau am arian

- Ambiwlans Awyr Cymru
- SSFA – Elusen y Lluoedd Arfog
- Apel GISDA 40

7. Adroddiad Cyng Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)

8.Adroddiad Cyng Elwyn Evans , Cynrychiolydd Un Llais Cymru.

9. Gohebiaeth.

- Materion mynwent Llanfihangel y Pennant
- Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru
- Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol Cynghorwyr.
- Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Penodiad Archwilydd Mewnol/Llythyr ymrwymo – cyfrifon 2024-25

10. Unrhyw fater arall

